**Cofnodion Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd 10fed Gorffennaf 2013 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

**Presennol**
Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
David Morris (Dirprwy Gadeirydd)
Celia Blomeley
Antony P Young
Y Cynghorydd Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn

Gareth Owens, Dirprwy Glerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint

1 PENODI CADEIRYDD

1.1 Gofynnodd y Dirprwy Glerc am enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd am flwyddyn y cyngor 2013/14. Jane A Eyton-Jones oedd yr unig enwebiad.

1.2 **PENDERFYNWYD ethol Jane A Eyton-Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am flwyddyn y cyngor 2013/14.**

2 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD

2.1 Gofynnodd y Dirprwy Glerc am enwebiadau ar gyfer swydd y Dirprwy Gadeirydd am flwyddyn y cyngor 2013/14. David Morris oedd yr unig enwebiad.

2.2 **PENDERFYNWYD ethol David Morris yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am flwyddyn y cyngor 2013/14.**

3 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 22 MAI 2012

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 22 Mai yn gofnod cywir.

5 MATERION YN CODI

5.1 6.10 – Yswiriant Indemniad (uchafswm o £20,000) – eglurodd y Dirprwy Glerc fod y mwyafrif o gynghorau yn defnyddio cwmni DAS ar gyfer yswiriant, sy'n darparu terfyn talu allan o £50,000 ar gyfer dibenion indemniad. Unwaith roedd Llywodraeth Cymru a CLlLC wedi sylweddoli hyn, nid oedd y mater o uchafswm yn bryder bellach. **Alwen i ddarparu manylion cwmni yswiriant yr Awdurdod i'r Dirprwy Glerc er mwyn nodi sefyllfa bresennol yr Awdurdod ynglŷn ag indemniad.**

5.2.1 7.1 – Trefn Datrys Leol – dywedodd y Dirprwy Glerc wrth yr aelodau fod wyth cyngor eisoes wedi cytuno ar drefn datrys leol i ddelio â chwynion gan un aelod am aelod arall. Mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i bob awdurdod lleol fod â gweithdrefn o'r fath erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2013/14. Ar hyn o bryd nid yw'n eglur a oes disgwyl i'r Awdurdod Tân ac Achub fod â pholisi. Fodd bynnag, roedd aelodau o'r farn na fyddai'n ddrwg o beth i gael gweithdrefn yn ei lle.

**5.2.2 PENDERFYNWYD y byddai'r Dirprwy Glerc yn dosbarthu'r gwahanol bolisïau sydd ar gael i aelodau a'r prif swyddogion i'w hystyried cyn penderfynu â ddylid cyflwyno polisi drafft i'r Awdurdod ai peidio.**

6 DIWEDDARIAD AM Y COD YMDDYGIAD I AELODAU

6.1 Dywedodd y Dirprwy Glerc wrth aelodau am y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymddygiad a'r newidiadau sydd eisoes wedi eu gwneud i'r canllawiau a gafwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

6.2 Mae paragraff 6(1)(c) o'r Cod Ymddygiad yn disgwyl i aelodau adrodd i'r Ombwdsmon am unrhyw achosion posibl o dorri'r Cod. Fodd bynnag, fel y trafodwyd o dan materion yn codi mae'r Ombwdsmon nawr yn disgwyl i awdurdodau lleol sefydlu eu gweithdrefn eu hunain i ddelio â chwynion aelodau am aelodau eraill. Yn dechnegol byddai adrodd am achos o dorri'r Cod o dan y drefn datrys leol yn mynd yn groes i baragraff 6(1)(c) ac felly fe'i dilëir er mwyn i'r drefn datrys leol allu gweithio. Tan hynny mae'r Ombwdsmon wedi dweud os bydd aelod yn adrodd am dorri'r Cod o dan y drefn datrys leol yna ni fydd ei staff yn ymchwilio i'r methiant i adrodd o dan baragraff 6(1)(c).

6.3 Mae paragraff (10)(2)(b) yn cyfeirio at wrthdaro buddiannau posibl pan fydd dyletswydd aelod i gynrychioli ei etholwyr efallai'n gwrthdaro â dyletswydd cyfreithiol yr awdurdod y mae'n aelod ohono. Mae'r dehongliad wedi peri anhawster gan ei fod wedi ei eirio'n debyg iawn i'r prawf ar gyfer buddiant sy'n rhagfarnu ac os y diffinir ef mewn ffordd arbennig byddai'n golygu fod cynghorwyr yn methu cynrychioli eu hetholwyr. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig dileu y rhwymedigaeth hwn yn ei gyfanrwydd.

6.4 Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc hefyd at ddiweddariad i'r canllawiau ar y Cod Ymddygiad ynglŷn â'r rhwymedigaeth i drin eraill â pharch. Yn dilyn dyfarniad gan yr Uchel Lys, mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig sy'n ei gwneud yn glir, er y bydd rhywfaint o sylwadau/rhyddid mynegiant yn cael eu diogelu, pan ei fo'n fater gwleidyddol, bydd ymddygiad rhai yn parhau i gael ei ystyried fel achos o dorri'r Cod.

**6.5 PENDERFYNWYD nodi'r**

**(i) newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymddygiad ac y bydd y Dirprwy Glerc yn hysbysu aelodau pan gaiff y deddfwriaeth ei basio; a'r**

**(ii) newid diweddar i ganllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

7 CYHOEDDI COFRESTR O FUDDIANNAU AELODAU AR-LEIN

7.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc adroddiad yn hysbysu aelodau am awgrym Llywodraeth Cymru y dylid cyhoeddi cofrestr o fuddiannau'r aelodau ar-lein. Cynigiwyd diwygiad yn hwyr yn y broses Mesur Democratiaeth i ofyn i'r cynghorau gyhoeddi'r wybodaeth ar-lein.

7.2 Trafododd yr aelodau'r adroddiad ac ar ôl ystyried pwysigrwydd tryloywder ac atebolrwydd, ac hefyd ar gyfer y cyhoedd a oedd methu ag ymweld â swyddfeydd oherwydd gwahanol resymau fel diffyg trafnidiaeth, roeddynt yn teimlo y dylai'r mater gael ei ystyried gan yr Awdurdod.

7.3 Dywedodd y Dirprwy Glerc wrth aelodau fod rhywfaint o bryderon ynglŷn â chamddefnyddio gwybodaeth sensitif sydd yn y gofrestr buddiannau. Fodd bynnag, mae'r Cod Ymddygiad yn nodi dylai unrhyw aelod sydd â phryderon am hyn eu trafod â'r swyddog monitro ac felly ni ddylid ei ystyried yn ormod o broblem.

7.4 **PENDERFYNWYD ymchwilio'r mater ymhellach ac y dylai'r Dirprwy Glerc gyflwyno adroddiad i'r Panel Gweithredol i'w ystyried.**

8 POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu aelodau am y polisi cyfryngau cymdeithasol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ddiweddar.

8.2 Mae'r polisi'n ei gwneud yn glir na fydd y weithred o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ynddo'i hun yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad gan aelodau. Fodd bynnag, mae'n bosibl wrth gwrs i'r hyn ddywed aelodau fod gyfystyr â thorri'r Cod, yn amodol ar achos Calver y cyfeiriwyd ato mewn adroddiad cynharach. Mae'n bosibl i broblemau godi ac felly mae'n bwysig fod y Pwyllgor yn nodi'r polisi.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi'r polisi cyfryngau cymdeithasol.**